



Gwella'r defnydd o dystiolaeth mewn llywodraeth leol

Cefndir

Mae meithrin cysylltiadau rhwng y byd academiaidd a llywodraeth leol wedi bod yn bryder ers cryn amser i'r rheini sydd â diddordeb mewn hyrwyddo arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Er bod y rhwystrau a'r galluogwyr o ran y defnydd o dystiolaeth yn hysbys (Langer et al. 2016) a bod yna gorff cynyddol o lenyddiaeth ar ymarferwyr llywodraeth leol ac academyddion fel partneriaid ymchwil, rydym yn gwybod llai am y ffordd orau o hwyluso'r partneriaethau hyn.

I archwilio'r mater hwn, gweithiodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) gyda Chyngor Caerdydd a Gofal Cymdeithasol Cymru ar brosiect pedwar mis a ariannwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd (NIHR) i gynyddu cysylltiadau rhwng y cyngor, iechyd y cyhoedd a'r byd academiaidd. Archwiliodd y prosiect y mecanweithiau, perthnasoedd a rhwydweithiau sydd eu hangen i gefnogi ac ariannu ymgysylltiad ymchwil o ansawdd uchel yn yr adran Gwasanaethau Plant yn y cyngor.

Fel rhan o'r prosiect hwn cynhaliom dri gweithdy ar-lein gyda chynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Plant, Prifysgol Caerdydd, Gofal Cymdeithasol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector, ynghyd ag arolwg gyda staff Gwasanaethau Plant ar ddulliau o ddefnyddio ymchwil ac arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y cyngor.

Yn y briff hwn rydym yn adrodd ar ganfyddiadau'r gweithdai a'r arolwg, wedi'u grwpio o dan dair thema allweddol sy'n ymwneud ag arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'r defnydd o ymchwil yn y cyngor:

- Arfer cyfredol
- Rhwystrau i arfer da
- Cyfleoedd a ffyrdd posib ymlaen.

Arfer cyfredol

Roedd mwyafrif y cyfranogwyr yn cymryd rhan mewn arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn eu gwaith ac yn meddwl ei fod yn bwysig. Gallent bwyntio at ystod eang o weithgareddau lle defnyddiwyd arfer yn seiliedig ar dystiolaeth yn y Gwasanaethau Plant.

Adroddodd cyfranogwyr lefel uchel o arfer myfyriol, yn gyffredinol yn gysylltiedig â defnydd y Gwasanaethau Plant o'r dull Arwyddion Diogelwch. Ystyriwyd bod arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ganolog i'r dull hwn.

Nododd sawl un eu bod wedi defnyddio arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn eu hastudiaethau cyn ac ar ôl cymhwyso. Amlygwyd ymchwil a wnaed gan fyfyrwyr gwaith cymdeithasol hefyd fel enghraifft o arfer presennol, er bod pryder nad oedd hyn wedi'i integreiddio i nodau strategol y Gwasanaethau Plant a'i fod yn tueddu i fodoli ar wahân.

Mae cefnogi staff i ddod o hyd i dystiolaeth berthnasol yn rhan bwysig o hyrwyddo'r defnydd o dystiolaeth. Adroddodd cyfranogwyr sawl man lle gallai staff gael gafael ar adroddiadau ymchwil. Er enghraifft, mae un tîm yn defnyddio ffolder a rennir i ychwanegu unrhyw ddarnau newydd o ymchwil y maent wedi dod ar eu traws i'w trafod mewn cyfarfodydd tîm, a rhennir manylion mewngofnodi i gael mynediad at fforymau ar-lein.

Rhwystrau i arfer da

Er gwaethaf y meysydd hyn o arfer da, roedd cyfranogwyr yn teimlo bod arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn aml yn ddigyswllt ac yn ad hoc, gan ddibynnu ar

ddiddordebau staff allweddol yn hytrach na chael ei weithredu'n gyson ar draws y Gwasanaethau Plant. Dywedodd un:

“Mae gennym rai modelau y gallwn gysylltu'r lens ymchwil hon â nhw, ond mae'n dameidiog iawn yn fy marn i ac yn ôl pob tebyg yn danddatblygedig ac, mewn gwirionedd, mae timau'n brysur iawn hefyd. Mae'n rhaid i ni wneud hyn yn rhan o'u harfer mewn ffordd gefnogol, nid fel swydd ychwanegol, oherwydd ni fydd yn digwydd fel arall”.

Ystyriwyd bod strwythurau a phrosesau presennol yn y maes hwn wedi'u cydgysylltu'n wael a'u gweithredu'n anghyson, heb unrhyw fframwaith cyffredinol. Nid oedd cyfranogwyr o reidrwydd yn gwybod am waith sy'n digwydd yn eu tîm neu adran, nac yn y gwasanaethau cymdeithasol neu'r Cyngor ehangach.

Roedd ymatebwyr yr arolwg o'r farn bod gwella llythrennedd ymchwil yn bwysig ond roedd bron pob un o'r farn bod angen cymorth ychwanegol ar staff yn y maes hwn. Adlewyrchwyd hyn hefyd yn nhrafodaethau'r gweithdy. Roedd y cyfranogwyr eisiau help i 'drosi' ymchwil i'w defnyddio'n ymarferol.

Roedd amser a gallu hefyd yn cael eu hystyried yn rhwystrau mawr i'r math hwn o arfer, fel y nodwyd mewn gwaith blaenorol yn y maes hwn. Dywedodd un cyfranogwr:

“Nid oes gan bobl ddigon o amser i ddarllen ymchwil yn hamddenol. Yn fy marn i, pe na bai capasiti yn gymaint o broblem, gallai fod cyfleoedd hyfforddi, er enghraifft hanner diwrnod y mis i bob ymarferydd gael amser penodol ar gyfer darllen, gan fynd â hyn yn ôl wedyn i gyfarfod tîm”.

Cyfleoedd a ffyrdd posib ymlaen

Ystyriwyd bod hyfforddi a datblygu'r gweithlu yn ganolog i gefnogi staff a magu eu hyder i wneud mwy o ddefnydd o ymchwil yn eu gwaith. Roedd Prif Weithwyr Cymdeithasol a Gweithwyr Cymdeithasol Ymgynghorol yn cael eu hystyried yn allweddol i hyn, gan fod lledaenu ymchwil yn rhan o'u disgrifiadau swydd. Fodd bynnag, mae pwysau gwaith yn golygu bod y staff hyn yn cael eu tynnu fwyfwy i mewn i waith achos cymhleth, gan adael braidd dim amser i

ganolbwyntio ar hyrwyddo arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Tynnodd cyfranogwyr sylw at sawl cyfle i strwythurau a phrosesau gefnogi'r gwaith o drosi/distyllu tystiolaeth ymchwil yn ymarfer. Gwelsant botensial yn y model ymchwilydd ymwreiddio (Coates a Mickan, 2020), lle mae ymchwilydd yn dod yn aelod o dîm o ymarferwyr, ac yn y syniad o hyrwyddwyr ymchwil, lle mae aelodau unigol o staff yn gyfrifol am hyrwyddo a lledaenu tystiolaeth yn y cyngor. Ystyriwyd mai Prif Weithwyr Cymdeithasol neu Weithwyr Cymdeithasol Ymgynghorol sy'n gweddu orau i rôl hyrwyddwr ymchwil.

Sbardunwyd diddordeb yn y prosiect hwn gan yr uwch arweinwyr yn y Gwasanaethau Plant, a phwysleisiodd y cyfranogwyr yr angen am ymrwymiad parhaus gan arweinwyr i gefnogi capasiti. Amlygwyd pwysigrwydd defnyddio ymchwil ac arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar lefel strategol, i alinio'r defnydd o ymchwil a thystiolaeth â blaenoriaethau corfforaethol a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau a gosod cyllideb.

Argymhellodd y cyfranogwyr y gallai grŵp llywio symud ymlaen gyda'r materion hyn a sicrhau dull cydgysylltiedig. Dywedodd un cyfranogwr:

“Byddai unrhyw fath o weithgor, grŵp datblygu neu grŵp llywio yn bwysig ac yn eithaf cynhenid yn ôl pob tebyg wrth ddechrau hyn, gyda phawb yn cydweithio'n gydlynol. Ar hyn o bryd mae 'na lawer o bobl yn gwneud rhywfaint o waith rhagorol mewn meysydd gwahanol iawn, mewn ffyrdd gwahanol, ond does dim ohono'n cydblethu”.

Roedd diddordeb sylweddol mewn gweld Cyngor Caerdydd yn dod yn fwy gweithredol o ran ymchwil, ac yn y pen draw yn cael ei adnabod fel safle ar gyfer ymchwil ac ymarfer blaengar. Er gwaethaf y brwdfrydedd amlwg a ddaeth i'r amlwg yn ystod y prosiect i gynyddu'r defnydd o ymchwil ac arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y Cyngor, prin oedd y cysylltiadau presennol rhwng y Gwasanaethau Plant a'r Brifysgol. Dywedodd mwyafrif ymatebwyr yr arolwg nad oeddent yn ymwneud â gweithgareddau ymchwil ar hyn o bryd. Mae trafodaethau'r gweithdai yn awgrymu nad yw staff y Cyngor ychwaith yn cymryd rhan yn y gwaith rhanbarthol a chenedlaethol

i hyrwyddo arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a wneir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Roedd diddordeb sylweddol mewn datblygu hyn yn y dyfodol, yn enwedig ar wella canlyniadau hirdymor i blant a theuluoedd. Roedd cyfranogwyr yn awyddus i ddatblygu dull o'r gwaelod i fyny o ddatblygu agenda ymchwil.

Roedd diddordeb mewn datblygu cysylltiadau â Phrifysgol Caerdydd ar ystod o feysydd ymchwil posib ar draws y Gwasanaethau Plant, megis cyn geni, niwed cyd-destunol, canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal, diogelu, camfanteisio troseddol a rhywiol ynghyd â gwella canlyniadau iechyd ac integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys gwella prosesau casglu data a gwybodaeth ystadegol, yn enwedig ar wneud penderfyniadau strategol a darparu gwasanaethau, ond roedd angen i hyn fod yn berthnasol i'r blaenoriaethau strategol ar gyfer y Gwasanaethau Plant. Roedd y cyfranogwyr hefyd eisiau i ymchwil ganolbwyntio ar effaith gwaith y Gwasanaethau Plant.

Galwodd cyfranogwyr am ymchwil i archwilio canlyniadau hydredol ar lefel leol, megis archwilio effaith y 'triawd sbarduno': trais domestig a rhywiol, defnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl. Roedd galw hefyd am ymchwil a data mwy cymharol fel y gellir gweld gwaith yng Nghaerdydd mewn cyd-destun ehangach, i helpu i lywio arferion.

Yn olaf, roedd cyfranogwyr eisiau gweithio gydag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys iechyd y cyhoedd, y trydydd sector a Phrifysgol Caerdydd i ddatblygu dull amlasiantaethol o ymchwilio a defnyddio tystiolaeth.

Myfyrdodau

Mae ymchwil wedi canfod mai ychydig iawn o ymwybyddiaeth sydd mewn llywodraeth leol o'r ymchwil a wneir gan brifysgolion y DU, a bod y gallu i ymgysylltu â'r ymchwil hon yn lleihau (Allen et al. 2015). Canfuwyd bod hyn yn wir yn gyffredinol yng Nghaerdydd, ond roedd tystiolaeth o awydd gwirioneddol ar draws pob lefel o Wasanaethau Plant i wella cysylltiadau â'r byd academaidd a gwneud y ffiniau rhwng y 'ddwy gymuned' yn fwy hydraidd (Caplan, 1979). Ystyriwyd bod prosesau cydweithredu gwell â Phrifysgol Caerdydd yn gyfle i'r

Cyngor gynyddu arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a dod yn safle o ymchwil ac ymarfer blaengar.

Mae gan y Cyngor strwythurau a phrosesau ar waith eisoes y bwriedir iddynt: hwyluso mynediad ar dystiolaeth ymchwil ac ymgorffori modelau arfer yn seiliedig ar dystiolaeth; ac mae ganddo ffynonellau arbenigedd dynodedig ledled y Gwasanaethau Plant (h.y. Prif Weithwyr Cymdeithasol a Gweithwyr Cymdeithasol Ymgynghorol). Fodd bynnag, mae'r prosiect hwn wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw'r mesurau hyn wedi bod yn ddigonol, gan arwain at bocedi o 'arfer da' heb i'r rhain ddod yn eang na chael eu prif-ffrydio.

Yn y byrdymor, **mae Prifysgol Caerdydd mewn sefyllfa dda i gefnogi'r Gwasanaethau Plant** o ran hwyluso mynediad i ymchwil, hyrwyddo arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chefnogi datblygiad y gweithlu.

Mae'r ymchwil yn awgrymu rôl bosibl i froceriaid gwybodaeth a allai 'drosi' ymchwil i'w defnyddio'n ymarferol, yn hytrach na disgwyl i academyddion newid sut maen nhw'n cyfathrebu eu hymchwil ac i weithwyr cymdeithasol gael digon o amser i ddarllen tystiolaeth ymchwil. Mae profiad WCPP wrth weithio gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus yn awgrymu bod swyddogion yn rhoi gwerth uchel ar gyswllt ag arbenigwyr (e.e. byrddau crwn neu sesiynau briffio 1:1) yn hytrach na darllen dogfennau, ac mae'r rhain hefyd yn gyfleoedd ar gyfer dysgu cyfatebol. Gallai brocer gwybodaeth neu ymchwilydd ymwreiddio hwyluso'r gweithgareddau hyn a threfnu cyfarfodydd a digwyddiadau i adeiladu dealltwriaeth o'r defnydd o dystiolaeth, datblygu cwestiynau ymchwil, a rhannu'r canlyniadau o ymchwil mewn fformat hygyrch.

Mae potensial i gyd-gynhyrchu prosiectau bach sy'n syntheseiddio tystiolaeth mewn meysydd allweddol ac yn cyflwyno'r meysydd hyn mewn fformat sy'n addas i'w ddefnyddio ar y rheng flaen. Awgrymwyd eisoes ystod o bynciau ymchwil, o gyn geni a phrofiadau plentyndod niweidiol i ganlyniadau iechyd ac addysgol i blant sy'n derbyn gofal. Byddai grŵp llywio o gynrychiolwyr o bob rhan o'r grwpiau rhanddeiliaid allweddol yn cytuno ar y pynciau ymchwil a'r dystiolaeth sydd ei hangen i'w hateb, ac yna'n comisiynu arbenigwr.

Mae'r prosiect hwn wedi ategu gwaith parhaus WCPP a'r Gwasanaethau Plant yng Nghyngor Caerdydd, ac wedi gosod sylfeini cadarn i greu Cyngor Caerdydd sy'n weithredol o ran ymchwil ac sy'n gallu cymryd rhan lawn mewn ymchwil gofal cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd. **Mae cyfleoedd i adeiladu ar yr egin berthnasoedd a ddatblygwyd trwy'r prosiect hwn** i archwilio meysydd o gyd-ddidordeb ymchwil a chyflwyno dulliau i gefnogi prosesau cyd-gynhyrchu gwybodaeth. Gan adeiladu ar yr ymchwil ddiweddar mewn lleoliad iechyd ym Mryste (Wye et al. 2020) gallai system ymchwil Caerdydd gynnwys cyfuniad o froceriaid gwybodaeth ac ymchwilwyr ymwreiddio a all hwyluso prosesau cyfnewid o fewn a rhwng gwahanol adrannau'r cyngor, yn ogystal â hyrwyddwyr ymchwil, a chyd-gynhyrchu prosiectau ymchwil bach. Byddai'r isadeiledd hwn yn helpu i ddarparu gweithgareddau ymchwil cynaliadwy ac yn y pen draw yn arwain at ganlyniadau gwell i blant a theuluoedd. Bydd y grŵp llywio sy'n cael ei sefydlu yn archwilio cyfleoedd i ddatblygu'r seilwaith hwn.

Cyfeiriadau

Allen, T. Grace, C. a Martin, S. (2015). **Making the Most of Research: Final Report of the ESRC Local Government Knowledge Navigator**. Adalwyd o <https://solace.org.uk/wp-content/uploads/2019/05/SOLACE-Reports-and-Guides-Solace-Making-the-Most-of-Research.pdf>

Caplan, N. (1979). **The two-communities theory and knowledge utilization**. American Behavioural Scientist, 22: 459-70.

Coates, D. a Mickan, S. (2020). **Challenges and enablers of the embedded researcher model**. Journal of Health Organization and Management. 34, 7: 743-764. Adalwyd o <https://doi.org/10.1108/JHOM-02-2020-0043>

Langer, L. Tripney, J. a Gough, D. (2016). **The Science of Using Science: Researching the Use of Research Evidence in Decision Making**. Sefydliad Addysg UCL: Llundain.

Rhagor o wybodaeth

Am yr adroddiad llawn gweler Bowen, K., Bristow, D., Taylor-Collins, E., a Downe, J. (2021), **Improving Decision-making and Practice in Public Health and Social Care Research by Making the Connections between Cardiff Council and Cardiff University**. Cyngor Caerdydd a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol

Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith Beth Sy'n Gweithio y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Emma Taylor-Collins

+44 (0)29 2251 0872

emma.taylor-collins@wcpp.org.uk

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG



www.wcpp.org.uk/cy



029 2087 5345



info@wcpp.org.uk



@WCfPP



Economic and Social Research Council



Llywodraeth Cymru
Welsh Government